## Hanfodion Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (IiV Essentials)

Mae offeryn ar-lein IiV Essential ar gael yn Saesneg yn unig. Gellir defnyddio'r ddogfen hon fel dogfen ganllaw ar gyfer yr offeryn ar-lein neu gellir ei defnyddio fel fersiwn all-lein

*‘Dechrau arni’ – Tudalen gofrestru*

*Newid cam 3*

*Gallwch chi weld, lawrlwytho neu argraffu eich canlyniadau ar unrhyw adeg. Byddwch chi’n gweld sgôr ar gyfer pob maes rydych chi wedi’i gwblhau a’ch sgôr gyffredinol.*

*‘Dechrau arni’ – tudalen ddychwelyd*

*Ychwanegu at gam 2*

*Gallwch chi weld, lawrlwytho neu argraffu eich canlyniadau ar unrhyw adeg. Byddwch chi’n gweld sgôr ar gyfer pob maes rydych chi wedi’i gwblhau a’ch sgôr gyffredinol.*

*Yr un strwythur cwestiwn â TCE*

*ee*

**Ble ydyn ni nawr?**

**Ble ydyn ni’n gobeithio bod?**



**Wedi’i gyflawni’n rhannol**

**Ydy**

# DECHRAU ARNI

Croeso i offeryn diagnostig Hanfodion Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.

Gwnaethom greu'r offeryn hwn i helpu'ch mudiad neu grŵp i feddwl am arferion gorau o ran sut rydych chi'n cynnwys gwirfoddolwyr.

Seiliwyd ef ar y chwe maes ansawdd sy'n llunio'r fersiwn newydd o Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a fydd yn cael ei lansio yn 2021, ein marc ansawdd a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol. Gwnaethom hefyd ddefnyddio ymchwil i'r hyn sydd o bennaf bwys i wirfoddolwyr

Bydd yr offeryn yn eich helpu chi i feddwl a oes gennych chi'r ffyrdd gorau o gynnwys gwirfoddolwyr mewn lle, a'r meysydd y gallech chi eu gwella neu ddatblygu.

## Cam 1: cofrestru

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ac fe wnawn ni anfon e-bost atoch gyda dolen unigryw i'ch fersiwn chi o'r offeryn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Timau Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## Gweledigaeth ar gyfer gwirfoddoli

Rydych chi wedi meddwl am sut gall gwirfoddolwyr eich helpu chi i gyflawni'ch amcanion. Rydych yn defnyddio dull wedi'i gynllunio o gynnwys gwirfoddolwyr. Mae'n cynnwys nodi'r rolau y gall gwirfoddolwyr eu cyflawni a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r broses yn ymwybodol o'r effaith y mae gwirfoddolwyr yn ei chael. Maen nhw'n deall y dylai'r gwirfoddolwyr eu hunain gael budd o gael eu cynnwys.

1. Rydyn ni'n gwybod pam ein bod yn cynnwys gwirfoddolwyr. Rydyn ni wedi ystyried sut mae'r rolau gwirfoddoli sydd gennym yn ein helpu i wireddu ein gweledigaeth

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

2. Rydyn ni'n ystyried gwirfoddoli wrth fynd ati i gynllunio, gan gynnwys cynllunio adnoddau

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

| | |
|---|---|
| Geirfa | |
| amcanion | Gallai'r amcanion hyn fod wedi'u cynnwys o fewn datganiad cenhadaeth neu weledigaeth, neu gynllun strategol/ busnes/ gweithredu neu ddogfen arall |
| dull wedi'i gynllunio | Gallai hwn gynnwys gwaith cynllunio o ran y mudiad yn gyffredinol, neu o ran prosiectau neu weithgareddau penodol |
| adnoddau | Gallai'r rhain gynnwys treuliau gwirfoddolwyr, arian i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr, neu adnoddau ymarferol fel cyfarpar, er enghraifft |
| effaith | Dyma'r gwahaniaeth y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud, yr hyn a fyddai'n cael ei 'golli' pe na bai nhw'n rhan o'r gwaith. Gallai'r Pecyn Offer Asesu Effaith Gwirfoddolwyr fod yn adnodd defnyddiol |
| cynnwys | Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'u rhesymau a'u hysgogiadau dros wirfoddoli. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o brofiad ffurfiol er mwyn datblygu gyrfa i gyfle i gael cyswllt cymdeithasol neu awydd i 'roi rhywbeth yn ôl' |

## Cynllunio ar gyfer gwirfoddolwyr

Rydych chi wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i reoli prosesau cynnwys gwirfoddolwyr, gan gynnwys recriwtio, cynefino, goruchwylio a chefnogi, a datrys problemau. Rydych chi wedi nodi pwy fydd yn gyfrifol am weithredu hyn. Fel rhan o hyn, rydych chi wedi meddwl am y risgiau, ac mae'r prosesau rydych chi wedi'u datblygu yn cynnwys diogelu ac amddiffyn pawb sy'n gysylltiedig.

3. Rydyn ni wedi datblygu prosesau i gefnogi ein gwaith o gynnwys gwirfoddolwyr

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

4. Rydyn ni wedi ystyried y risgiau a rhoi systemau ar waith i sicrhau diogelwch, yn ogystal ag iechyd a llesiant gwirfoddolwyr, y mudiad ac eraill

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

| Geirfa | |
|---|---|
| gweithdrefnau | Efallai bod gennych chi bolisi gwirfoddoli trosfwaol (neu debyg) neu efallai bod gennych gyfres o ddogfennau gweithdrefnol |
| pwy fydd yn gyfrifol | Gallai hwn fod yn aelod cyflogedig o'r staff, aelod bwrdd neu wirfoddolwr arall. Dylai fod ganddo'r profiadau, y cymwyseddau a'r priodweddau priodol, a'r amser i ymgymryd â'r rôl |
| risgiau | Byddwch chi wedi cynnal 'asesiad risg' o'ch rolau gwirfoddoli ac wedi ystyried sut i leihau'r risgiau a nodwyd / ymateb os bydd y risgiau'n dod yn ffaith. |
| diogelu | Diogelu yw'r term a ddefnyddir i nodi camau i ddiogelu iechyd, llesiant a hawliau dynol unigolion, sy'n galluogi pobl — yn enwedig |

| | |
|---|---|
| | plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed — i fyw heb gamdriniaeth, niwed nac esgeulustod |
| amddiffyn | Gallai hyn gynnwys gweithdrefnau iechyd a diogelwch, yswiriannau, a chydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) |

## Cynnwys gwirfoddolwyr

Rydych chi wedi meddwl am sut i gynnwys gwirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd. Rydych chi'n ymdrechu i ddenu amrediad amrywiol o bobl a gwneud gwirfoddoli'n fwy hygyrch.

5. Rydyn ni'n cynnwys gwirfoddolwyr mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys gwahanol brofiadau, cymwyseddau, priodweddau, doniau, cymhellion ac amserau y maen nhw ar gael

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

6. Rydyn ni'n meddwl am sut a ble rydyn ni'n 'hysbysebu' cyfleoedd er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd amrediad amrywiol o wirfoddolwyr posibl. Mae gwybodaeth eglur am sut gallan nhw gymryd rhan ac mae'r wybodaeth hon ar gael yn hawdd

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

| | |
|---|---|
| Geirfa | |
| gwahanol gefndiroedd | Gallech chi gymharu eich cronfa o wirfoddolwyr â'r gymuned leol er mwyn nodi unrhyw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol |
| mwy hygyrch | Gallai hyn gynnwys meddwl am y gwahanol rolau y gallech chi eu cynnig neu ffyrdd o addasu rolau cyfredol. Efallai y gallech chi wneud newidiadau i'r broses recriwtio a chynefino er mwyn sicrhau cyfleoedd a phrofiadau gwirfoddoli cynhwysol. Efallai bod gennych chi drefniadau mynediad gwahanol, cymorth ychwanegol neu dechnoleg/cyfarpar penodol i gynnwys mwy o bobl, yn enwedig gwirfoddolwyr anabl. |

## Recriwtio a chroesawu gwirfoddolwyr

Gall darpar wirfoddolwyr ddod o hyd i'r cyfleoedd rydych chi'n eu cynnig yn hawdd, ynghyd â'r broses gynnwys. Mae eich proses ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr newydd yn gymesur â'r rolau y byddant yn eu cyflawni. Rydych chi'n darparu sesiwn gynefino gynhwysfawr

7. Mae ein dull o gael gwirfoddolwyr i ymuno â ni yn syml. Mae'n rhoi cyfle i ddarpar wirfoddolwyr edrych ar ddisgwyliadau ein gilydd a phenderfynu a yw'r rôl yn iawn iddyn nhw

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

8. Rydyn ni'n darparu gwybodaeth ragarweiniol a sesiwn gynefino ar gyfer pob gwirfoddolwr newydd

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |

| Nodiadau |
|---|
| |

| Geirfa | |
|---|---|
| proses gynnwys | Gallai'r broses hon gynnwys pethau fel ffurflen gais, cyfweliad, sesiwn flasu, gwirio geirdaon, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriadau eraill |
| cymesur | Bydd rolau mwy cymhleth a rolau lle mae gwirfoddolwyr yn cysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn gofyn am broses mwy trylwyr. Dylid ymgymryd â gwiriadau ffurfiol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth |
| sesiwn gynefino | Dylai'r sesiwn gynefino gynnwys yr hyn y mae'r mudiad yn ei ddisgwyl gan y gwirfoddolwr a'r hyn y gall y gwirfoddolwr ei ddisgwyl gan y mudiad. Efallai y byddai datblygu rhestr wirio gynefino yn ddefnyddiol i chi er mwyn sicrhau bod popeth wedi'i gynnwys.<br>Ewch i wefan eich gwlad briodol i ddarllen eu canllawiau ar gynefino. NCVO, CGGC, Volunteer Scotland a Volunteer Now. |

## Cefnogi gwirfoddolwyr

Rydych chi wedi ystyried pa gefnogaeth barhaus sydd ei hangen ar wirfoddolwyr. Rydych wedi rhoi dulliau gweithredu ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Rydych chi'n cysylltu'n rheolaidd â gwirfoddolwyr ac yn eu hannog i gyflwyno syniadau a rhoi adborth i chi

9. Mae gennym bobl a strwythurau ar waith i gefnogi gwirfoddolwyr

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

10. Mae gennym gyfathrebu dwy ffordd da. Mae ein gwirfoddolwyr yn cael cyfle i wneud sylwadau ac awgrymiadau, rhoi adborth ar eu profiad, a chyfrannu at benderfyniadau

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

| Geirfa | |
|---|---|
| cefnogaeth | Gallai hyn fod yn gefnogaeth un i un, mewn grŵp neu dros y ffôn/ar-lein. Gallai fod yn rheolaidd neu yn ôl y gofyn. Gallai gael ei darparu gan staff neu aelod bwrdd, neu gyfoed |
| cyfathrebu | Gallai hyn fod wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar neges destun, drwy e-bost neu borth ar-lein, neu mewn cylchlythyr |
| cyflwyno syniadau a rhoi adborth i chi | Gallai hyn gynnwys cyflwyno holiaduron, neu wahodd gwirfoddolwyr i gyfarfodydd ymgynghori, neu ofyn am adborth a sylwadau cyffredinol wrth sgwrsio. Efallai bod gan rai mudiadau gynrychiolaeth wirfoddol mewn prosesau llywodraethu neu ar bwyllgorau rheoli |

## Gwerthfawrogi a datblygu gwirfoddolwyr

Rydych chi wedi meddwl am sut i sicrhau bod eich gwirfoddolwyr yn teimlo'n rhan o'r tîm. Rydych chi'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw'n rheolaidd am y gwahaniaeth y mae eu cyfraniad yn ei wneud ac yn diolch iddyn nhw am eu cyfraniad. Rydych chi wedi meddwl am sut gall gwirfoddoli helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu ac yn cefnogi'r datblygiad hwnnw lle'n bosibl

11. Byddai ein gwirfoddolwyr yn dweud eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn rhan o'r tîm a bod eu cyfraniad yn ystyrlon ac yn werth chweil

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |

| Nodiadau |
|---|
| |

12. Mae cyfleoedd i wirfoddolwyr ddatblygu profiadau, sgiliau a hyder. Rydyn ni'n eu cefnogi, lle'n berthnasol, i gyflawni eu dyheadau ar gyfer y dyfodol

| | |
|---|---|
| **Ble ydyn ni nawr?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| **Ble ydyn ni'n gobeithio bod?** | heb ei fodloni / wedi'i gyflawni'n rhannol / wedi'i fodloni |
| Nodiadau | |
| | |

| Geirfa | |
|---|---|
| rhan o'r tîm | Gallai hyn gynnwys eu gwahodd nhw i gyfarfodydd a digwyddiadau, ymgynghori â nhw, neu gyfeirio at eu mewnbwn mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau |
| diolch iddyn nhw | Gallai hyn fod mor syml â diolch iddyn nhw ar ddiwedd eu sesiwn, neu efallai gynnal digwyddiadau diolch neu ganolbwyntio arnyn nhw a diolch iddyn nhw mewn adroddiadau a chyhoeddiadau. |
| helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu | Gallai hyn fod drwy gyfleoedd hyfforddi neu gyfleoedd iddyn nhw ymgymryd â mwy o dasgau / rolau gwahanol. Gallent fod yn gyfleoedd i gysgodi rhywun neu ymgymryd â rhywfaint o ddysgu ar-lein. |
| cefnogi'r datblygiad hwnnw | Gallai hyn fod drwy ddarparu geirdaon neu ddatganiadau o'u cyflawniad. Gallai fod drwy roi gwybod i wirfoddolwyr am swyddi gwag neu eu helpu i gysylltu â rhwydweithiau perthnasol |